# Cymedroli cynnwys mewn gwasanaethau ar-lein o ddefnyddiwr i ddefnyddiwr

Trosolwg o brosesau a heriau

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 14 Medi 2023

Classification: CONFIDENTIAL

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................ 3

# 1. Trosolwg

## Cyflwyniad

1.1 **Mae pryderon am niwed sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein eraill sy'n lletya cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr (gwasanaethau o ddefnyddiwr i ddefnyddiwr) wedi mynd yn ganolbwynt i drafodaeth gyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf, yn y DU ac yn fyd-eang.** Mae llawer o'r pryderon hyn yn dod o dan gylch gwaith Ofcom fel rhan o'n dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'n pwerau o dan y drefn llwyfannau rhannu fideos, neu maent yn debygol o fynd yn rhan o'n dyletswyddau o dan y Bil Diogelwch Ar-lein.

1.2 **Mae darparwyr gwasanaethau ar-lein yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau sydd â'r nod o gyfyngu ar niwed i ddefnyddwyr – y cyfeirir atynt yn gyffredin fel gweithgareddau Diogelwch ac Ymddiriedaeth (T&S).** Ymhlith y rhain mae gweithgareddau sydd â'r nod o atal *actorion* (e.e. troseddwyr) drwg neu ddigroeso rhag camddefnyddio gwasanaethau; o fynd i'r afael ag *ymddygiad* annymunol (e.e. trolio); o daclo *cynnwys* anghyfreithlon neu niweidiol (e.e. iaith casineb); ac o atal plant rhag *cael mynediad at* gynnwys neu wasanaethau penodol.

1.3 **Mae rhan bwysig o weithgareddau Diogelwch ac Ymddiriedaeth yn ymwneud â dileu neu leihau gweladwyedd cynnwys a allai fod yn niweidiol. Yn y papur hwn, cyfeiriwn at y gweithgareddau hyn fel *cymedroli cynnwys*.** Mae cymedroli cynnwys yn ganolog i drafodaethau cyhoeddus cyfredol am reoleiddio ar-lein, yn rhannol am ei fod yn codi goblygiadau ynghylch sut y gall defnyddwyr fynegi eu hunain yn rhydd ar-lein. Bydd hefyd yn berthnasol i waith Ofcom yn y dyfodol ar systemau a phrosesau diogelwch gwasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, mae gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch cymedroli cynnwys yn gymharol wasgarog ac anghyflawn, ac mae'n bosib y bydd yn anodd i bobl nad ydynt yn arbenigwyr lunio barn gyfannol am arferion a heriau cyffredin. Nod y papur hwn yw helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, gan alw ar drafodaethau helaeth rydym wedi'u cael dros y ddwy flynedd diwethaf gyda chwe darparwr o wahanol faint a math, gan gynnwys Facebook (Meta), YouTube (Google), Reddit a Bumble – yn ogystal â gwybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus.

1.4 **Mae dwy Ran i'r adroddiad llawn.** Mae Rhan I yn darparu disgrifiad ffeithiol o'r prif agweddau ar gymedroli cynnwys, gan ddibynnu ar dybiaeth syml ac arddulliedig sydd, yn ein tyb ni, yn adlewyrchu'n gyffredinol ymagwedd gwasanaethau at gymedroli cynnwys – hyd yn oed os nad yw'n adlewyrchu'r sefyllfa'n union mewn unrhyw wasanaeth unigol. Mae Rhan II yn cyflwyno'n myfyrdodau ein hunain ar rai o'r heriau sydd ynghlwm wrth gymedroli cynnwys, yn ogystal ag ar ymdrechion diweddar i ddatblygu metrigau i dracio perfformiad gwasanaethau wrth gymedroli cynnwys.